

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 25 Mehefin 2018
am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Ms J Ferry **JF**, Mrs B Hughes **BH**, Mrs Linda Jones **LJ**, Mr A Jones **Cadeirydd**, Dr E Jones **EJ**, Mr V Owen **VO**, Mr OG Roberts **OGR**, Miss JA Roberts **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr John Griffith **JG**, Ms Rhian Owen **Clerc**. Ymddiheuriadau: Ms Cari Jones.

2. Datgan Diddordeb: Dim

3. Cofnodion Mai 2018 a unrhyw faterion yn codi.

3.1 Symudwyd y paledi o thu allan i'r tŷ ar Ffordd Llundain lle'r oeddent yn achosi rhwystr, ac roedd bin coch newydd yno. Fodd bynnag, oherwydd cilder y palmant, roedd yn dal yn amhosibl i unrhyw coets gwthio neu gerddwyr gerdded ar y palmant heb orfod camu i'r ffordd ar y gornel beryglus hon. Nid oes unrhyw ddewis arall yn amlwg oherwydd credir nad oes lle tu allan yng nghefn y tai i gadw'r bin.

3.2 Mae'r clerc wedi ysgrifennu at y Cynghorwr Richard Jones, a oedd wedi gwadd ceisiadau gyda rhesymau pam ddylai'r cyngor cymuned fod yn gymwys i dderbyn diffibriliwr. Os na bydda'r cais yn llwyddiannus, bwriada'r Ysgol Uwchradd godi arian gyda raffl ayyb, ac byddai cais yn dod i'r cyngor cymuned am gymorth ariannol.

3.3 Roedd glaswellt yr gyffordd Llanynghenedl wedi ei dorri, on nodwyd fod gor dyfiant sylweddol ar y llwybr yn rhedeg yng nghefn y byngalos pensiywyr.

4. Maes Chwarae/ Ffrindiau Bodedern

Roedd y clerc wedi derbyn adroddiadau bod swm sylweddol o sbwriel wedi ei wasgaru yn y parc dros ardal eang. Diolch yn fawr bod aelod o'r cyhoedd wedi casglu'r sbwriel a'i roi wrth y bin. Fodd bynnag, nid oedd y bin yn cael ei gymryd i'r ffordd i gael ei wagio, felly gofynnodd y clerc ganiatâd i gael gwared â'r clo a pharhau â thrafodaethau â Mon CF i weld pe gallent symud y bin yn ystod eu harolygiadau.

Clerc/ Clerk:

Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn / Day Tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



5. Cyfrifon 2017-18.

Roedd y clerwr wedi gobeithio cael y cyflwyno y ffurfeln flynyddol yn dilyn yr archwiliad mewnol, ond yn anffodus ddim wedi derbyn y ffurflen yn ol eto. Cyflwynyd gysoniad banc ar gyfer y flwyddyn 17-18 i'r aelodau.

6. Materion Cynllunio

Dim.

7. Gohebiaeth

7.1 Derbyniodd y clerwr e-bost gan y Mr Tom Pritchard yn mynegi pryderon ynghylch y goryrru ar y B5109. Roedd y clerwr wedi pasio'r pryder hwn i CSYM, gyda chais arall am fesurau rheoli cyflymder. Nodwyd bod anawsterau difrifol wrth gael unrhyw fesurau cyfyngu cyflymder, er enghraifft, mae unrhyw gais am linellau melyn sengl neu dwbwl yn cymryd oddeutu 1-2 flynedd i'w brosesu. Y clerwr i barhau â thrafodaethau gyda CSYM.

7.2 Derbyniwyd gylchlythur Rhun ap Iorwerth.

8. Taliadau i'w gwneud

| | | | |
|-----------------------------|------------------|---------|------------------|
| Mon GC | MGC2683 | £260.00 | Rhif seic 200048 |
| Anglesey Computer Solutions | 18146 | £270 | Rhif seic 200049 |
| CSYM | Rent Cae Chwarae | £65.20 | Rhif seic 200050 |

Cyngor Cymuned Bodedern



9. Unrhyw fater arall

9.1 Y clerch i nodi manylion cyswllt ar yr hysbysfwrdd i unrhywn a ddymunai rannu newyddion neu wybodaeth lleol.

9.2 Mae bocys ffon coch wedi'i leoli ger Penllyn mewn cyflwr drwg iawn. Mae rhai cymunedau wedi adleoli'r rhain yn eu cymunedau i ddal diffibriliwr, llyfrgelloedd bach ayyb. Mae ei leoliad presennol yn anghysbell, felly y clerch i wneud ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o symud y blwch, neu ei werthu er mwyn codi arian gwerthfawr i'r gymuned.

9.3 Mae glaswellt wedi gor dyfu ar y ffordd o Gwyddfôr i Fodedern, ac gan fod yr arwydd mor isel nid yw'r arwydd i'w weld. Y clerch i gysylltu a CSYM i'w godi a chael y gwair wedi ei dorri.

9.4 Derbyniwyd gwynion oherwydd y newid yn yr amserlen bws. Nododd **JG** fod CSYM wedi cysylltu â Arriva i godi pryderon, a dywedwyd wrthynt mai penderfyniad masnachol oedd hwn. Ar hyn o bryd roedd CSYM yn chwilio am ddarparwyr gwasanaetha arall, yn ogystal ag ystyried a oedd posibilrwydd o rannu gwasanaeth bws gydag un o'r pentrefi cyfagos a oedd yn rhedeg tua'r un amser.

Cau 19:50